| **Gwasanaethau Cymdeithasol Plant**<br>**Cymhorthydd Gwasanaethau Plant Unigolion Cysylltiedig** |
|---|
| **Swydd barhaol**<br>**37 awr yr wythnos**<br>**Graddfa G04 £23,541.00 i £25,991.00**<br>**Lleoliad: Swyddfeydd y Sir, y Fflint** |
| Mae cyfle wedi codi i Gymhorthydd Gwasanaethau Plant ymuno â'n Gwasanaeth Maethu.<br><br>Rydym yn chwilio am ymgeisydd sy'n gallu dangos y gallu i ymgysylltu gyda gofalwyr Unigolion Cysylltiedig dan ofal maeth gan berthynas, gwarchodaeth arbennig a maethu preifat.<br>Mae sgiliau cyfathrebu effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn allweddol i'r swydd hon yn ogystal â'r gallu i greu a chynnal perthynas waith dda gyda'r holl bartïon.<br><br>Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.<br><br>Gan y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dod i gysylltiad rheolaidd â phlant, bydd yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:<br>Peter Robson, Rheolwr Gwasanaeth, ar 01352 701028 neu Suzanne Johnston, Rheolwr Tîm, ar 01352 701942.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle, ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi gweithwyr newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Oherwydd nifer y ceisiadau a dderbynnir, nid ydym bob amser yn gallu cysylltu â phob ymgeisydd yn unigol, felly os na fyddwch wedi clywed gennym o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol na fu eich cais yn llwyddiannus.<br><br>Bydd trefniadau gweithio rhan-amser, rhannu swydd a threfniadau gweithio hyblyg yn cael eu hystyried. |